

Sioe Frenhinol Cymru

18 - 21 Gorffennaf 2022

# Crefftau Cartref

## (Coginio, Chynnyrch & Gwaith Llaw)

Yn cynnwys:

Dosbarthiadau Iau Coginio & Gwaith Llaw

Dosbarthiadau Merched y Wawr

Dosbarthiadau Sefydliad y Merched

## Atodlen a Rheolau

**CEISIADAU AR-LEIN**

Cliciwch y ddolen isod i ymgynnig

<https://enrolment.engage-powered.com/rwas/signup/launch.aspx?e=1&siteid=NONLS>



Adran Crefftau Cartref  
Neuadd Arddangos De Morgannwg

## Ceisiadau Olaf

16 Mai 2022

## Tâl Ymgeisio

£1.00 y cais

Dosbarthiadau Iau – Dim tâl ymgeisio

Dosbarthiadau SYM & MYW (WI110 & MyW111)

£2.50 y cais

## Arian Gwobwyo

1<sup>af</sup> - £8.00      2<sup>ail</sup> - £6.00      3<sup>ydd</sup> - £4.00

## Dosbarthiadau Iau

1<sup>af</sup> - £3.00      2<sup>ail</sup> - £2.00      3<sup>ydd</sup> - £1.00

## SYM - Dosbarth WI110

1<sup>af</sup> - £12.00      2<sup>ail</sup> - £8.00      3<sup>ydd</sup> - £4.00

## MYW – Dosbarth MYW111

1<sup>af</sup> - £24.00      2<sup>ail</sup> - £16.00      3<sup>ydd</sup> - £8.00

## System Pwyntiau

1<sup>af</sup> – 5 points      2<sup>ail</sup> – 3 points      3<sup>ydd</sup> – 1 point

## Cyflwyniad Gwobrau

Dydd Iau 21 Gorffennaf am 4.30y.p

Adran Crefftau Cartref

## Manylion cyswllt


Mrs Bethan Davies

CAFC Cyf

Llanelwedd

Llanfair ym Muallt

Powys LD2 3SY

 01982 554 411

 bethan@rwas.co.uk

 cafc.cymru

## Cyfarwyddwr Cynorthwyol Anrhydeddus

Mrs Kay Spencer MBE NDD FRAGS

## Prif Stiward yr Adran

Mrs Kay Bowring

# MYNEGAI

## Adran

- Tud. Coginio a Chynnyrch**
- 1 Coginio Burum & Pastries
- 2 Melysfwyd a Gwaith Addurnol
- 2 Cacennau a Bisgedi
- 3 Cwpwrdd Cynnyrch
- 3 Dosbarthiadau Arddangosiad
- 4 Diodydd a Gwin Cartref
- 5 **Gwaith Llaw**
- 6 **Dosbarthiadau Iau – Coginio a Gwaith Llaw**
- 7 Gwobrau Arbennig
- 8 Rheolau i'r ymgeiswyr
- 9 Cydnabyddiaeth
- 10 **Dosbarth Sefydliad y Merched (WI110)**
- 11 Rheolau Dosbarth Sefydliad y Merched
- 12 **Dosbarth Merched y Wawr (MYW111)**
- 13 Rheolau Dosbarth Merched y Wawr

# COGINIO A CHYNNYRCH

Mae gan arddangoswyr hawl i DDIM MWY NA UN ymgais y dosbarth yn yr adran Coginio a Chynnyrch

## Coginio Burum a Pasteiaeth

### Beirniad

Ms Vivienne Martin, Conwy

### Uwch Stiward

Mrs Ros Roberts

### DOSBARTH

- P1 Torth surdoes
- P2 Torth gwenith cyflawn
- P3 Pum rôl bara plethedig gwyn
- P4 Tair bynsen Chelsea
- P5 Bara sawrus
- P6 Bynsen Sally Lunn
- P7 Bara Brith gyda burum
- P8 Tri Croissant
- P9 Dwy Basti Oggie
- P10 Quiche Lorraine
- P11 Plethen sawrus
- P12 Pastai meringue lemwn
- P13 Tarten ffrwythau
- P14 Tair corn hufen
- P15 Tair bynsen choux blas coffi
- P16 Tair teisen/cacen Eccles

# Melysfwyd a Gwaith Addurnol

## Beirniad

Mrs Helen Owen, Conwy

## Uwch Stiward

Mrs Ann Tudor

### DOSBARTH

- P17 Teisen / cacen / dymi addurnedig 'Dathlu Chwaraeon'
- P18 Teisen / cacen / dymi nofolti 'Tractor'
- P19 Teisen / cacen / dymi addurnedig ar gyfer dathliad gan ddefnyddio eisin brenhinol
- P20 Plac yn darlunio 'Gwenynen'
- P21 Arddangosfa o deisennau cwpan addurnedig
- P22 "Topper" i deisen / cacen wedi'i modelu, unrhyw gyfrwng siwgr
- P23 Arddangosfa crefft siwgr o flodau, aeron a gwyrddni (hedgerow)
- P24 Cyffug cyflas, wedi'i gyflwyno'n addas fel anrheg
- P25 Pum Florentine
- P26 Gateau Black Forest

**Dosbarthiadau P17 – P23 i'w beirniadu yn ôl addurniad yn unig**

## Cacennau a Bisgedi

## Beirniad

Mrs Anne Lloyd Richards, Ruthin

## Uwch Stiward

Mrs Mary Raw

### DOSBARTH

- P27 Teisen Fictoria
- P28 Fflan sbwng ffrwythau
- P29 Teisen fêl
- P30 Pum picen ar y maen/teisen gri
- P31 Teisen Gneifio
- P32 Teisen Battenberg
- P33 Pum sgonsen Gaws
- P34 Pum browni siocled
- P35 Teisen geirios
- P36 Pum cwci
- P37 Pum bisged sinsir

### AMODAU ARBENNIG

- **Dim ond plât gwyn plaen** y caiff arddangoswyr ei ddefnyddio.
- Bydd bwydydd sydd wedi dirywio yn cael eu rhoi heibio gan y stiwardiaid.

# Cwpwrdd Cynnyrch

## Beirniad

Mrs Jane Roberts, Conwy

## Uwch Stiward

Mrs Janet Lewis

## DOSBARTH

- P38 Jar o farmaled grawnffrwyth
- P39 Jar o jam ffrwythau 'heb aeron'
- P40 Jar o jam ffrwythau 'aeron'
- P41 Detholiad o dri Cyffaith
- P42 Jar o geuled gyda thair tartled gydag ef
- P43 Jar o fayonnaise perlysiau
- P44 Jar o jam tsili
- P45 Jar o bicalili
- P46 Jar o siytni tomato
- P47 Jar o bicl melys
- P48 Potel o olew cyflas a photel o finegr cyflas

## AMODAU ARBENNIG

- Pob jar a chynhwysydd i fod o wydr clir
- Bydd y beirniaid yn agor cynwysyddion yn ôl yr angen

# Dosbarthiadau Arddangosiad

## Beirniad

Mrs Jane Roberts, Conwy

## Uwch Stiward

Mrs Margaret Spencer

- P49 Arddangosfa o berlysiau ffres a enwir (maint mwyaf 12" drwyddo draw)
- P50 Hamper picnic Cymreig i ddau i fynd i Eisteddfod Llangollen

# Diodydd a Gwin Cartref

## Beirniad

Mr Colin Murray, Cardiff  
Mr Geoff Howells, RCT

## Uwch Stiward

Miss Aeron Davies

## DOSBARTH

- P51 Potel o Win Coch Melys
- P52 Potel o Win Gwyn Melys
- P53 Potel o Win Coch Sych
- P54 Potel o Win Gwyn Sych
- P55 Potel o Win Rhosliw
- P56 Potel o Win Perth Cymedrol Felys
- P57 Potel o Win Blodau a Enwir
- P58 Potel o Win Llysiau
- P59 Potel o Win Cadarn (o leiaf 18% alcohol)
- P60 Potel o Win Sinsir
- P61 Potel o Wirodlyn Ffrwyth
- P62 Potel o Jin Eirin
- P63 Casgliad o Dair Potel o Win a Enwir (1 Sych, 1 Cymedrol, 1 Melys)

## AMODAU ARBENNIG

- Dylid gosod y label swyddogol un fodfedd o waelod y botel.
- Labeli – Nodwch enw a dyddiad y gwin
- Dylid arddangos Gwinoedd a Gwirodydd gan ddefnyddio caeadau cantellog gyda thopiau gwyn.
- Rhaid arddangos gwinoedd a gwirodydd mewn poteli gwin wedi'u gwneud o wydr clir, neu wydr gydag ond ychydig bach o arlliw, heb farciau gwahaniaethol neu farciau masnachol. Fe all poteli gwydr ag arlliw cryf gael eu cosbi.
- **Dosbarth P69 – Gofalwch eich bod yn ENWI ac yn dweud pa un ai SYCH, CYMEDROL neu FELYS ar bob potel unigol.**

# GWAITH LLAW

Mae gan arddangoswyr hawl i DDIM MWY NA UN ymgais y dosbarth yn yr adran Gwaith Llaw

## Beirniad

Mrs Rhiannon Evans  
Mrs Llinos Roberts  
Ms Anwen Hughes

## Uwch Stiward

Miss Jennifer Thomas

## DOSBARTH

- H64 Tirlun wedi'i frodio â pheiriant
- H65 'Snoden, unrhyw gyfrwng Snwd gyda to ar yr w
- H66 Bag llaw i gydio ynddo, unrhyw gyfrwng
- H67 Clustog wedi gwau
- H68 Gilet
- H69 Ffasinadydd / hetinadydd / Cyfareddwr
- H70 Eitem wedi ei ffeltio
- H71 Eitem mewn croesbwyth
- H72 Fy anifail /anifeiliaid anwes, unrhyw gyfrwng
- H73 Broga/llyffant, unrhyw gyfrwng
- H74 Baners or buntins
- H75 Eitem mewn gwaith du
- H76 Cwilt cot, unrhyw gyfrwng
- H77 Peth atal drafft, unrhyw gyfrwng
- H78 Yr Wyddor, unrhyw gyfrwng
- H79 Eitem/au o origami
- H80 Set o emwaith blodeuog
- H81 Eitem mewn papier mâché
- H82 Caligraffi –  
'Cenedl heb iaith, cenedl heb galon'  
'A nation without language is a nation without heart'
- H83 Paentio – Darganfyddiad
- H84 Llun Dyfrlliw
- H85 Ffotograffiaeth – 'Dathliad'
- H86 Cerdyn pen-blwydd, unrhyw gyfrwng (gydag amlen / blwch)
- H87 Eitem o grochenwaith
- H88 Eitem wedi'i huwchgylchu (maint 1m sgwâr ar y mwyaf)
- H89 Jig-so, unrhyw gyfrwng
- H90 Eitem pren wedi ei droi
- H91 Eitem wedi wehyddu

**RHAID PEIDIO AG AILGYNNIG ARDDANGOSION SYDD WEDI ENNILL GWOBR O'R BLAEN  
YN UNRHYW UN O DDIGWYDDIADAU'R GYMDEITHAS. BYDDIR YN TYNNU LLUN POB  
ARDDANGOSYN BUDDUGOL**



# Dosbarthiadau Iau

## Coginio a Gwaith Llaw

Mae gan arddangoswyr hawl i DDIM MWY NA UN ymgais y dosbarth

### Coginio

#### Beirniad

Mrs Jane Evans, Denbighshire

#### Stiward

Janet Williams

Celine Jones Pugh-Davies

#### DOSBARTH

##### 13 - 16 mlwydd oed ar 18 Gorffennaf 22

- J92 Teisen addurnedig â thema fferm
- J93 Hoff saig (dish) swper (y rysâit i'w chynnwys os gwelwch yn dda)
- J94 Pum myffin

##### 8 – 12 mlwydd oed ar 18 Gorffennaf 22

- J95 Tair teisen gwpan anifeiliaid Fferm
- J96 Teisen gaws na chaiff ei phobi
- J97 Pum gwelltyn caws

##### 7 mlwydd oed ac iau ar 18 Gorffennaf 22

- J98 Tair teisen gwpan addurnedig
- J99 Pitsa – 'Fy wyneb'
- J100 Pum bisgeden addurnedig siâp anifeiliaid

### Gwaith Llaw

#### Beirniad

Mrs H Lawrence, Ruthin

#### Uwch Stiward

Mrs Rhian Thomas

#### DOSBARTH

##### 13 - 16 mlwydd oed ar 18 Gorffennaf 22

- J101 Eitem DT neu luniad/paentiad, unrhyw gyfrwng
- J102 Arwydd fferm / tŷ
- J103 Ffrâm wedi'i haddurno

##### 8 – 12 mlwydd oed ar 18 Gorffennaf 22

- J104 Ffotograff o anifail / aderyn
- J105 Map o Gymru, unrhyw gyfrwng
- J106 Castell o eitemau wedi'u hailgylchu

##### 7 mlwydd oed ac iau ar 18 Gorffennaf 22

- J107 Eitem/au Cymreig o waith llaw, unrhyw gyfrwng
- J108 Nod llyfr
- J109 Plât papur wedi'i addurno

# GWOBRAU ARBENNIG

## Coginio a Chynnyrch

- GA1. Bydd **Tystysgrif Medal Aur CAFC** yn cael eu dyfarnu i'r arddangoswr sy'n ennill y nifer uchaf o bwyntiau yn nosbarthiadau P1- P56.
- GA2. Bydd **Tystysgrif Medal Aur CAFC** yn cael ei dyfarnu i'r arddangoswr gyda'r nifer uchaf o bwyntiau yn y Dosbarthiadau Gwin Cartref.
- GA3. Bydd **Tlws Her David & Margaret Spencer** yn cael ei ddyfarnu i'r arddangoswr sy'n ennill y nifer uchaf o bwyntiau yn y dosbarthiadau Iau – **Adran Cynnyrch.**

## Gwaith Llaw

- GA4. Bydd **Tystysgrif Medal Aur CAFC** yn cael eu dyfarnu i'r arddangoswr sy'n ennill y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gwaith llaw oedolion.  
(Dosbarthiadau H1-H28)
- GA5 Bydd **Tlws Her David & Margaret Spencer** yn cael ei ddyfarnu i'r arddangoswr sy'n ennill y nifer uchaf o bwyntiau yn y dosbarthiadau Iau - **Adran Gwaith Llaw.**
- GA6. **Gwobr Goffa Dilys Morgan** am y 'Pencampwr y Pencampwyr' yn adran Gwaith Llaw yr Oedolion

# RHEOLAU I'R YMGEISWYR

1. Llwyfannu'r arddangosfeydd rhwng **2.00 a 6.45 prynhawn** Dydd Sul, Gorffennaf 17 neu rhwng **7.00 a 8.00 bore** Llyn, Gorffennaf 18. Bydd yr amseroedd hyn yn cael eu cadarnhau yn y llythyr at arddangoswyr a dderbyniwch, ac y mae'n rhaid ichi ei edrych cyn ichi gyrraedd.
2. **Ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod i'r arddangosfeydd na rhan ohonynt, yn ystod, nag yn dilyn yr arddangosfa; hefyd ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am golled o unrhyw eitem wrth gludo i, neu o, neu ar faes y Sioe.**
3. Ni ellir symud yr arddangosfeydd o'i lle dros gyfnod y Sioe, a rhaid eu casglu rhwng **5.30 a 7.00yp** Dydd Iau 21 Gorffennaf. Bydd mynediad yn cael ei ganiatáu i arddangoswyr sydd wedi derbyn **Pàs Maes Parcio Gwasanaethu Adran Gystadleuol SGEH (Coch) AR ÔL 7.00PM YN UNIG (AR YR AMOD BOD CERBYDAU DA BYW WEDI YMADAEL)**. **Bydd yr arddangoswr yn gyfrifol am unrhyw arddangosiad fydd yno ar ôl 7.30 ar noson olaf y Sioe.**
4. Bydd yr ymgeiswyr sydd a thâl ymgeisio o isafswm o £18.00 yn derbyn tocyn mynediad undydd i'r Sioe. **Ni ganiateir ar unrhyw amod gwneud y tâl i fyny i £18.00 drwy rodd.** Mae'r taliadau ymgeisio yn cynnwys T.A.W. **Bydd arddangosion na ddeuir â nhw ymlaen i'w beirniadu yn cael eu monitro ac efallai y gofynnir i arddangoswyr ddychwelyd eu tocyn mynediad os nad ydynt yn cyflwyno eu cynigion.**
5. Os mai'ch bwriad yw danfon eich nwyddau ar y bore Llyn **ni fydd tocyn mynediad yn cael ei roi.** Bydd rhaid ichi dalu i ddod i mewn i Faes y Sioe.
6. Bydd yr adran ar gau ar gyfer beirniadu rhwng 8.00y.b. a 12.30y.p ar y diwrnod cyntaf.
7. Rhaid i bob arddangosiad fod yn waith yr arddangoswr. Ni fydd eitemau budr/brwnt, eitemau a ddefnyddiwyd ac eitemau ac ôl traul arnynt yn cael eu derbyn. Pob gwaith i fod wedi'i orffen yn gyfan gwbl oni bai y dywedir yn wahanol yn yr atodlen.
8. Rhaid i'r arddangoswyr gwblhau eu cardiau arddangos rhifol a'u clymu i'w harddangosiadau cyn dod a hwy i'r Sioe. Coginio – clymwch y cardiau wrth ochr isaf yr arddangosyn.
9. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'ch data personol ac ond i'w brosesu yn unol â gofynion cyfreithiol. I gael mwy o fanylion dylech ofyn am gopi o'n polisi GDPR. Rydym yn prosesu'ch data personol gan fod ei angen i gyflawni ein contract gyda chi i hwyluso'ch mynediad i'r Sioe. Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data y tu allan i'r DU & AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd) ac ni fyddwn yn rhannu'ch data gyda thrydydd parti. Bydd canlyniadau'n cael eu cylchredeg hefyd i aelodau'r Wasg ac yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw'ch data yn unol â'n rhaglen gadw i symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych amrywiol hawliau yn y data a ddaliwn yn cynnwys ei gywiro a gwrthwynebu ei brosesu.
10. Os yw'r arddangoswr dan 18 mlwydd oed yna rhaid i'r ffurflen gais gael ei harwyddo gan riant/warcheidwad sydd dros 18 mlwydd oed. Sylwch fod pwy bynnag sy'n arwyddo'r ffurflen gais yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau".
11. Dylid ysgrifennu manylion am unrhyw wrthdystiad ar bapur a'i roddi i'r Prif Stiward o fewn dwy awr i'r beirniadu ynghyd â blaendâl o £25 a gaiff ei ad-dalu os cytunir a'r gwrthdystiad.
12. Caiff y gwobrau eu dyfarnu neu eu hatal, gan y beirniaid a hwythau hefyd fydd a'r dyfarniad terfynol. Bydd gwobrau ariannol, os yn bosibl, yn cael eu talu ymhen wyth wythnos gweithiol o'r Sioe (heblaw mewn achosion o brotest).
13. **Cwpanau a Thlysau Her – NODWCH OS GWELWCH YN DDA:-** Bydd y Cwpanau a'r Tlysau Her yn cael eu cadw'n barhaol mewn Ystafell Dlysau bwrpasol a leolir yn Neuadd Clwyd Morgannwg. Bydd enillydd pob Cwpan a Thlws Her yn derbyn Memento CAFC Swyddogol fel rhywbeth bach i gofio, bydd eu henw'n cael ei engrafu ar y Cwpanau a'r Tlysau her hefyd.
14. Ni ddychwelir yr un arddangosyn i'r arddangoswr heb "Amlen Arddangoswr Gwyn".

## **CYDNADYDDIAETH**

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Pwyllgor Cynnyrch a Gwaith Llaw yn falch o gydnabod y cyfraniad tuag at arian gwobrwyo a gwobrau oddi wrth:

**Catrin Jones, Crugan Farm, Llanbedrog, Pwllheli –  
Self Catering and Camping**

**Llawr Betws Leisure, Glan yr afon, Corwen, LL21 0HD  
Caravan Park**

**Mrs Kay Bowring**

**Mr & Mrs David Spencer**

**Mrs Carol Thomas**

# DOSBARTH SEFYDLIAD Y MERCHED

Cystadleuaeth Ffederasiwn Cymru yw hon lle y cyflwynir Bowlen Rhosod Barhaol gan Bwyllgor Cymru i'r Ffederasiwn buddugol. Cyflwynir y tlws ar Ddydd Iau 21 o Orffennaf ar amser i'w gyhoeddi yn Rhaglen y Dydd.

## Beirniaid

### CREFFT

Helen Williams, Llangefni

## Uwch Stiward

Mrs Lisa Howells

### CYNNYRCH

Jane Taylor, Shropshire

### TREFNU BLODAU

Ann Hughes, Betws-y-Coed

### LLWYFANNAU

Sally Gosmore, Wrexham

## Dosbarth WI110

### Thema - 'Moroedd Mewn Argyfwng''

## Tâl Ymgeisio

**£2.50 per entry**

## Gwobrau

Bowlen Rhosod Barhaol

£12.00; £8.00; £4.00

Arddangosfa sy'n sefyll ar SYLFAEN UNRHYW SIÂP (i'w darparu gan gystadleuwyr) a'i lwyfannu o fewn ardal heb fod yn mesur mwy na 30" x 30" i'w olygu o'r ffrynt yn unig (cymerwch ofal gyda thaclusrwydd yr ochrau a'r cefn). Bydd y bwrdd a'r ffedog wedi eu gorchuddio mewn defnydd lliw hufen.

Yr arddangosfa gyfunol i gynnwys 5 eitem i ddarlunio'r thema (ni chaniateir gwin yn eu plith). Eitemau i gynnwys y canlynol:-

**Cynnyrch** - un eitem o fwyd / fwydydd cadw  
un eitem o goginio (heb fod yn cynnwys cig na physgod)

**Crefft** - dwy eitem yn dangos amryw sgiliau

**Blodau** - un trefniant

Marciau i'w dyfarnu fel a ganlyn:

1) Pob eitem 20 marc	=	100 marc
2) Llwyfannu ac Arddangos	=	20 marc
3) Dehongliad	=	<u>20</u> marc
		<u>140</u>

# RHEOLAU DOSBARTH SEFYDLIAD Y MERCHED

1. Gall y beirniad gosbi pob ymgais lle mae'r sylfaen yn fwy na'r mesuriadau ac os gosodir eitemau y tu allan i'r sylfaen.
2. Ni chaniateir defnyddio poteli masnachol.
3. Rhaid i bob eitem o fwyd a chreffft fod yn symudol ar gyfer beirniadu.
4. Dylai eitemau bwyd ond cynnwys eitemau sy'n addas ar gyfer beirniadu yn oer.
5. Ni ddylai eitemau chreffft fod wedi eu harddangos mewn unrhyw gystadleuaeth Bowlen Rhosod yn y gorffennol.
6. Beirnedir yn ôl Llawlyfr cyfredol Gwyddor Gartref FfCSYM – "On with the Show"
7. Gall y geiriad fod yn y Gymraeg, y Saesneg neu unrhyw gyfuniad o'r ddwy iaith. Bydd ffurflen marcio ddwyieithog ar gael. Dylid gwneud cais am sylwadau dwyieithog o flaen llaw.
8. Mae penderfyniad y beirniad yn derfynol. Dylid cyflwyno unrhyw gwyn yn ysgrifenedig wedi ei lofnodi i'r Uwch Stiward o fewn dwy awr o'r adran yn agor i'r cyhoedd ynghyd a blaendal o £25 a ddychwelir os ategir y gwyn.
9. Ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod i'r arddangosfeydd na rhan ohonynt, yn ystod nag yn dilyn yr arddangosfa; hefyd ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am golled o unrhyw eitem wrth ei gludo i, o, neu ar faes y Sioe.
10. Ni chaniateir mwy na thair aelod i lwyfannu ar yr un pryd.
11. Darperir bwrdd i'r cystadleuwyr wrth baratoi eu harddangosfa.

## NODER

Gofynnir i gystadleuwyr ddychwelyd i ardal y Fowlen Rhosod am 12 o'r gloch er mwyn sicrhau bod yr eitemau a feirniadwyd wedi ei hailosod yn gywir. Rhaid i gystadleuwyr wneud eu hunain yn hawdd i'w hadnabod. Bydd y beirniad ar gael i drafod y feirniadaeth gyda'r cystadleuwyr am 2.30 o'r gloch.

Gellir paratoi arddangosfeydd rhwng 2.30yp a 6.45yp ar ddydd Sul neu rhwng 7.00yp a 7.45yb ar ddydd Llun y Sioe. Rhaid clirio pob arddangosfa rhwng 5.30yp a 6.30yp ar ddiwrnod ola'r Sioe.

# DOSBARTH MERCHED Y WAWR

CYSTADLEUAETH CWPAN RADI THOMAS

## Beirniaid

### Coginio / Blodau

Ms Rhian Owen

### Crefft / Gwinio

Mrs Mim Roberts

Ms Nia Davis

## Uwch Stiwardiaid

Tegwen Morris

Mary Mars Lloyd

**Rhif Dosbarth: MYW111**

**Thema: 'Eden Werdd'**

**Tâl Ymgeisio: £2.50**

## Gwobrau:

### Bowlen Rhosod Barhaol

£24.00; £16.00; £8.00

**(5 eitem ar gyfer cystadleuaeth Radi Thomas)**

### **Pum eitem i'w beirniadu'n unigol**

**Crefft** – Eitem yn defnyddio botwm neu fotymau (gellir creu y botwm os dymunir)

**Crefft** – Paentio 'Yr Ardd' - (unrhyw gyfrwng, unrhyw faint)

**Crefft** – Ffedog neu frat garddio

**Crefft** – Creu Blodyn neu Flodau (unrhyw gyfrwng) wedi eu harddangos –y blodau yn unig i'w beirniadu

**Coginio** – Tarten Afal gaeëdig ar blât

**Rhoddir marciau am y pum eitem o grefft/coginio yn unig**

**Ni fydd marciau am lwyfannu na dehongli**

# RHEOLAU DOSBARTH MERCHED Y WAWR

1. Rhoddir marciau am y pum eitem yn unig. Ni fydd marciau am lwyfannu na dehongli.
2. I'w harddangos ar fwrdd hir gyda sgrin sydd tua 1 metr o uchder fel cefndir. Bydd gofod o tua 1 metr sgwâr i bob rhanbarth o flaen y sgrin i arddangos yr eitemau. Os dymunir gellir defnyddio'r cefndir i hongian llun neu eitem arall arno.
3. Darperir ffedog ddu ar flaen bob bwrdd.
4. Ni ddylai unrhyw eitem o'r arddangosfa fod wedi ei arddangos yn y Sioe o'r blaen.
5. Rhaid i bob eitem fod yn waith gan aelod o'r Rhanbarth.
6. Pum aelod yn unig a ganiateir i osod yr arddangosfa, gyda dwy aelod yn derbyn 'pass' mynediad.
7. Rhaid i'r gwaith gael ei osod rhwng 2.00 o'r gloch y prynhawn a 6.00 o'r gloch yr hwyr ddydd Sul neu rhwng 7.00 a 8.00 o'r gloch fore Llun y Sioe. Dylid clirio'r arddangosfa rhwng 5.30 a 7.00 o'r gloch ar ddiwrnod olaf y Sioe.
8. Cyhoeddir y marciau a'r sefyllfaoedd erbyn 1.00 o'r gloch brynhawn Llun.
9. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol.
10. Bydd cyfle i'r cystadleuwyr gyfarfod y beirniaid i drafod y gystadleuaeth am 2.00 o'r gloch brynhawn Llun.
11. Dylid cyflwyno unrhyw gŵyn cyn 3.00 o'r gloch brynhawn Llun y Sioe a hynny yn ysgrifenedig, wedi ei lofnodi a gyda thâl o £25 i Brif Stiward Cystadleuaeth Merched y Wawr.
12. Bydd hawl i'r cystadleuwyr ddychwelyd at eu harddangosfeydd ar ôl y beirniadu i sicrhau bod yr eitemau a feirniadwyd wedi eu hail osod yn y lle priodol.
13. Gofynnir i gynrychiolydd o'r Rhanbarth buddugol fod yn bresennol adeg cyflwyno'r cwpan dydd Iau am 4.30yp.
14. Ni fydd Merched y Wawr yn gyfrifol am unrhyw eitem o'r arddangosfa yn ystod cyfnod y Sioe.
15. Rhaid anfon y tâl cystadlu i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol erbyn  
**6 Mai 2022.**